



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: **WG45676**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Safonau ymddygiad

Canllawiau drafft ar gyfer arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau a phwyllgorau safonau

Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad.

Mae'r darpariaethau ynghylch safonau ymddygiad a geir yn Rhan 4 o Ddeddf 2021 yn cefnogi ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus a'r nod o sicrhau Cymru wrth-hiliol.

Daw'r dyletswyddau i rym o ddechrau'r cylch etholiadol llywodraeth leol nesaf, ar 5 Mai 2022.

Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGDТmailbox@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: [Ymgynghoriad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021: canllawiau statudol ar safonau ymddygiad \[HTML\]](#) | [LLYW.CYMRU](#)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ("Deddf 2021") yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad.
- 1.2 Mae'r canllawiau statudol ar safonau ymddygiad yn nodi sut y dylai arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau gyflawni eu dyletswyddau yn adran 52A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ('Deddf 2000'), a fewnosodwyd gan adran 62 o Ddeddf 2021, sy'n ymwneud â hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp.
- 1.3 Mae'r darpariaethau yn Neddf 2021 yn cefnogi'r diwylliant hwn drwy ddarparu dyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel eu haelodau. Mae'r ddyletswydd yn cydnabod y dylai'r rhai sy'n arweinwyr ac sydd â dylanwad o fewn prif gyngor fod yn gyfrifol am fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu ymhlith aelodau etholedig a staff y cyngor a bod rhaid iddynt weithredu fel patrwm cadarnhaol.
- 1.4 Ni fwriedir i'r ddyletswydd fod yn ateb i bob problem ac ni fydd yn cwmpasu pawb yn benodol h.y., yr aelodau hynny nad ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol, ond fe'i cynlluniwyd i fod yn gymesur ac i gynnig cymorth. Ei nod yw atal neu atal ymddygiad amhriodol cyn iddo dorri'r Cod Ymddygiad, felly dylai ei hegwyddorion fod yn gymwys i bawb.

2. Ymgynghori

- 2.1 Rhaid i gynghorau fod yn fannau lle mae diwylliant agored yn ffynnu a lle mae pobl yn cael eu croesawu a'u parchu, beth bynnag fo'u cefndir, er mwyn annog ystod fwy amrywiol o bobl i chwilio am swydd etholedig mewn llywodraeth leol. Mae safonau ymddygiad yn allweddol i hyn, ac mae gan bob aelod gyfrifoldeb i weithredu mewn modd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi pawb.
- 2.2 Gwahoddwyd sylwadau ar y canllawiau statudol safonau ymddygiad drafft fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos a ddechreuodd ar 21 Chwefror ac a ddaeth i ben ar 16 Mai 2022. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Daeth cyfanswm o 15 o ymatebion i law trwy'r holiadur ar-lein cau.
- 2.3 Ceir manylion pellach am y canllawiau statudol drafft ar y safonau ymddygiad yn y ddogfen ymgynghori drwy glicio ar y ddolen ganlynol.

[Ymgynghoriad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021: canllawiau statudol ar safonau ymddygiad \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

3. Ymatebwyr

3.1 Gellir grwpio'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

Math o ymatebydd	
Aelod o'r Cyhoedd	6
Prif Gyngor	4
Awdurdod Tân ac Achub	1
Arall – ymatebwyr na wnaethant roi ateb o ran y math o gwestiwn a/neu yn hepgor cwestiynau	4

3.2 O'r 15 a ymatebodd i'r ymgynghoriad, dywedodd naw eu bod yn dymuno aros yn ddiennw, ac nid atebodd y chwe ymatebydd arall y cwestiwn. Felly, nid ydym wedi rhyddhau manylion hunaniaeth unrhyw un o'r ymatebwyr.

4. Crynodeb o'r Ymatebion

4.1 Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r 15 o ymatebion i a ddaeth i law drwy'r holiadur ar-lein. Nid yw'r adroddiad yn ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Yn hytrach, mae'n nodi'r prif negeseuon. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r canllawiau drafft ac yn eu cefnogi, gyda rhai ymatebwyr yn rhoi sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol ynghylch sut i gynyddu eu heglurder a'u cwrpas ac i sicrhau ei bod yn glir sut y byddai arweinwyr gwleidyddol yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau.

5. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Gofynnodd yr ymgynghoriad 5 cwestiwn fel y nodir isod.

C1. A yw'r canllawiau drafft yn esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau, fel y'i nodir yn narpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), mewn ffordd y gall aelodau grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau ei deall? Os nad ydynt, pam?

5.1 Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae rhywfaint o bryder y byddai'n anodd gwrthbrofi unrhyw gyhuddiad nad oedd arweinydd y grŵp gwleidyddol yn gwneud digon i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel, os byddai honiad yn cael ei wneud. At hynny, teimlir bod lle i'r canllawiau gael eu dehongli'n wahanol gan y rhai yr oedd yn gymwys iddynt.
- Mae'r canllawiau'n ymwneud yn gryf iawn â datrys materion o fewn y grŵp gwleidyddol, ond nid ydynt mor gryf o ran datrys cwynion lefel isel lle mae'r rhai o dan sylw yn dod o grwpiau gwleidyddol gwahanol. Mewn achosion o'r fath mae angen i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gydweithio i ddatrys y gŵyn.
- Mae angen i'r canllawiau hefyd ymdrin â sefyllfa aelodau annibynnol, gweithio ar eu pennau eu hunain ac mewn cydweithrediad ag eraill.

- Mae barn y dylai arweinwyr grwpiau gwleidyddol fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion adrodd â'r Pwyllgor Safonau, e.e., llunio adroddiad blynyddol i amlinellu o leiaf pa gamau y maent wedi'u cymryd i gynnal a gwella safonau ymddygiad uchel o fewn eu grŵp. Dywedwyd y byddai hyn yn arwain at nifer o fanteision gan gynnwys dull gweithredu cyson ledled Cymru a rhoi cyhoeddusrwydd i godi safonau ar draws y cyngor a Chymru. Yna gallai adroddiad y Pwyllgor Safonau fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn adroddiad yr arweinydd gwleidyddol, a gallai adroddiad yr arweinydd gwleidyddol nodi unrhyw dueddiadau ymddygiad sy'n peri pryder y gallai'r Pwyllgor Safonau fynd i'r afael â hwy.
- Dylai fod rheidrwydd ar arweinwyr gwleidyddol i roi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am unrhyw bryderon difrifol ar unwaith, efallai yn ddiennw, fel y gall y Pwyllgor Safonau roi cymorth a chynghor.
- Pwysleisiwyd hefyd y bydd angen hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau.

C2. A yw'r canllawiau drafft yn esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir gan Bwyllgorau Safonau mewn prif gynghorau, fel y'i nodir yn darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mewn ffordd y gall Pwyllgorau Safonau ei deall? Os nad ydynt, pam?

5.2 Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Er bod hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan Bwyllgorau Safonau mewn prif gynghorau, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dylid cynnwys manylion pellach am sut y bydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn monitro cydymffurfiad grwpiau'r arweinwyr gwleidyddol gan fod angen cysondeb a thryloywder ar draws pob awdurdod lleol ac mae'n bwysig cynnal perthynas dda'r Pwyllgorau Safonau ag arweinwyr pleidiau gwleidyddol. Mae'r weithdrefn datrys leol yn elfen bwysig o'r gyfundrefn safonau a dylid ystyried codio hyn yn y gyfraith.
- Mynegodd ateb arall bryder y gallai dyletswydd i baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol gael ei hystyried yn feichus.
- Dylai aelodau'r Pwyllgorau Safonau gael mynediad hefyd at hyfforddiant i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu dehongli'n gyson. Nododd sylw a ddaeth i law ar ran Pwyllgor Safonau y gellid cryfhau eu rôl drwy gyflwyno hyfforddiant gorfodol i bob aelod. Dylai hyn gynnwys mwy na'r gofrestr buddiannau ond y gyfundrefn safonau gyfan gan gynnwys penaethiaid Nolan a datrys materion yn lleol. At hynny, roedd yr ymateb yn awgrymu y dylai aelodau'r Pwyllgor Safonau eu hunain helpu i ddarparu'r hyfforddiant.
- Mae'r canllawiau'n sôn am y Pwyllgor Safonau '... yn monitro gweithrediad gweithdrefnau cwyno am gamweinyddu corfforaethol'. Credid ei bod yn ymddangos bod hyn yn gorgyffwrdd â thelerau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gofynnodd am eglurhad ar y mater hwn.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a ddylai adroddiadau'r Pwyllgor Safonau fod yn hygyrch i'r cyhoedd, ac awgrymwyd y dylai'r cyfnod adrodd fod yn 6 mis gydag adroddiadau ar wahanol gylchoedd fel na ddônt i law i gyd ar yr un

pryd. Byddai hyn hefyd yn caniatáu gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd yn brydlon.

- Cynigiwyd y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys enghreifftiau penodol yn y canllawiau ar gyfer arweinwyr grwpiau gwleidyddol a Phwyllgorau Safonau o'r hyn a olygir wrth derminoleg benodol a rhoi gwell syniad o'r hyn a ddisgwyllir ganddynt.

C3. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

5.3 Cafwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn lle'r oedd hanner o'r farn bod yr effaith y byddai'r canllawiau'n ei chael ar y Gymraeg yn niwtral; heb unrhyw effaith; heb unrhyw newid i'r arfer presennol; yn gadarnhaol ar y cyfan neu pan benderfynodd yr ymatebydd beidio â gwneud sylwadau o gwbl. Ceir crynodeb o'r sylwadau hyn isod:

- Nid oedd ymatebion eraill yn ymwneud yn llwyr ag effeithiau'r canllawiau, ond roedd y sylwadau'n cynnwys na ddylid trin Saesneg yn llai ffafriol mewn ardaloedd di-gymraeg.
- Byddai'n syniad da dysgu rhai ymadroddion Cymraeg byr i boblogaeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg i bawb, nid mewn ysgolion yn unig.

C5. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r canllawiau gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.4 Cafwyd 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd bron dwy ran o dair o'r farn bod yr effaith y byddai'r canllawiau'n ei chael ar y Gymraeg yn niwtral; heb unrhyw effaith; heb unrhyw newid i'r arfer presennol; yn foddhaol neu'n gadarnhaol ar y cyfan neu pan benderfynodd yr ymatebydd beidio â gwneud sylwadau o gwbl. Ceir crynodeb o'r ymatebion isod:

- Mae'r ddwy iaith yr un mor ddilys â'i gilydd a dylid rhoi'r un parch iddynt.
- Mae angen annog pob cyngor i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg. Dylai gwasanaethau cyfieithu fod ar gael bob amser. Dylid ystyried annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyngorau ledled Cymru. Awgrymodd un ymatebydd y dylai cyngorwyr tref, cyngorwyr ward, ASau ac Aelodau Senedd y DU (yng Nghymru) i gyd allu siarad Cymraeg sylfaenol neu ei gwneud yn orfodol iddynt gwblhau / pasio cwrs Cymraeg. Hefyd, mae angen sefydlu gofyniad cymhwyster gofynnol er mwyn sefyll / cael eich ethol yn gyngorwyr tref a chynghorwyr ward.

- Roedd angen hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng teledu prif ffrwd, gan nad oes digon o'r boblogaeth sy'n gallu ei siarad. Mae angen i ni greu positifrwydd drwy gynyddu'r niferoedd.

C5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch ymateb isod i fynegi eich barn.

5.5 Cafwyd 10 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ymatebodd tri o'r rhain gan ddweud dim sylw, dim pwynt a dim byd pellach. O'r lleill, mae'r pwyntiau allweddol nas crybwyllwyd uchod wedi'u rhestru isod:

- Mae'r canllawiau'n dawel ynglŷn â'r angen i arweinwyr grwpiau gwleidyddol sicrhau bod y berthynas rhwng swyddogion ac aelodau yn gweithredu ar sail gadarn a bod eglurder a pharch at y gwahanol rolau sydd gan swyddogion, ac aelodau.
- Nid yw'n glir pa mor effeithiol fydd y dyletswyddau newydd hyn yn ymarferol gan ei bod yn ymddangos bod y dyletswyddau'n dibynnu ar gydweithrediad parod arweinwyr grwpiau gwleidyddol ac ymddengys mai prin yw'r ysgogiadau os na fydd unrhyw arweinydd grŵp gwleidyddol yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r bwriad.
- Mae angen i gynghorau sy'n cael eu harwain gan arweinwyr annibynnol sy'n rhydd rhag goruchwyliaeth wleidyddol gael eu dal yn atebol yn gyfreithiol gan fframwaith sy'n sicrhau bod safonau cyfreithiol a chorfforaethol yn cael eu cynnal, er lles y bobl ac i sicrhau goruchwyliaeth annibynnol.
- Un o sylwadau Pwyllgor Safonau oedd y gallai ateb lleol ffurfioli materion yn hytrach na chyfyngu mwy anffurfiol a dylid cymryd gofal i wahaniaethu rhwng y ddau ateb. Er hynny, mae datrys a chyfyngu lleol yn ychwanegu mwy o gyfrifoldebau at lwyth gwaith y Pwyllgorau Safonau. Bydd hyn yn golygu cost ariannol a bydd angen ystyried hyn.